WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dr Helen Paterson
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Swyddfeydd y Cyngor
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 03 Hydref 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | 462A2012 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif Ffôn** | 029 2032 0500 |
| **E-bost** | WalesAuditOffice@WAO.gov.uk |
| **Tudalennau** | **1** o **9** |

Annwyl Helen

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol;
  - crynodeb byr o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyhoeddwyd ers fy adroddiad diwethaf.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion;
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

## Datblygiadau ers fy adroddiad diwethaf

Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2012, penododd y Cyngor Fwrdd Gweithredol newydd ac Arweinydd newydd. Erys y Bwrdd yn wleidyddol gytbwys ac mae saith o'r 10 aelod yn Aelodau Arweiniol sy'n gyfrifol am bortffolio o weithgareddau'r Cyngor.

Mae'r ffordd fynediad newydd i Ystad Ddiwydiannol Wrecsam bellach wedi'i hagor. Rhoddwyd y £30 miliwn ar gyfer y prosiect hwn gan Lywodraeth Cymru, a chafodd ei reoli'n lleol gan y Cyngor.

Mae gwaith wedi dechrau'n ddiweddar ar brosiect Porth y Gorllewin. Fel rhan o'r datblygiad hwn, mae'r Cyngor wedi rhoi £1.8 miliwn i wella mynediad i Barc Technoleg Wrecsam drwy well llwybrau troed a chysylltiadau ffordd.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2012-2016 (y Cynllun) yn amlinellu amcanion gwella'r Cyngor, sy'n cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac yn ymddangos yn gyflawnadwy;
- mae canlyniadau gweithgareddau ymgynghori blaenorol gyda'r cyhoedd a phartneriaid perthnasol wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r Blaenoriaethau Gwella;
- mae'r Cyngor wedi pennu targedau lefel uchel i'w cyflawni yn ystod oes y Cynllun.

Mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ac sy'n gymharol hawdd i'w ddeall. Ategir y Cynllun gan fersiwn gryno fer a deniadol sydd wrthi'n cael ei hyrwyddo gan y Cyngor. Yn y Cynllun, mae'r Cyngor wedi disgrifio'r canlyniadau lefel uchel y mae am eu cyflawni drwy gyfrwng 15 o Amcanion Gwella. Mae rhychwant yr amcanion hyn yn uchelgeisiol, yn enwedig o ystyried y ffaith bod llawer ohonynt yn gofyn i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth. Mae'r targedau a bennwyd ar gyfer gwella safonau addysgol yn uchelgeisiol hefyd, ond prin yw'r her a gyflwynir gan lawer o'r targedau eraill.

Mae lle i'r Cyngor wella ansawdd y Cynllun ymhellach. Mae pob Amcan Gwella yn cynnwys disgrifiad o'r cyfraniad y gall ei wneud i'r Fwrdeistref. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes unrhyw resymeg dros pam y dewiswyd yr amcan mewn perthynas â meini prawf fel perfformiad yn y gorffennol, yr angen i sicrhau arbedion effeithlonrwydd y gellir eu troi'n arian parod neu weithredu polisi cenedlaethol. Gallai'r Amcanion Gwella gael eu disgrifio'n fanylach o ran y canlyniadau a ragwelir. Ar hyn o bryd, nid yw'r mesurau sy'n gysylltiedig â phob canlyniad â blaenoriaeth, mewn llawer o achosion, yn adlewyrchu'r rhychwant o uchelgeisiau a amlinellir yn y disgrifiad.

## Ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig iddo, credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Deuthum i'r casgliad hwn am fod y Cyngor:

- wedi gwneud cynnydd da mewn sawl maes ar gyfer gwella a nodwyd mewn llythyrau ac adroddiadau archwilio blaenorol;
- yn dal i fod mewn sefyllfa dda i reoli'r her ariannol drwy raglenni arbedion a phrosiectau 'Trawsnewid';
- yn meddu ar drefniadau ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg sy'n debygol o gefnogi gwelliant parhaus; ac
- mae AGGCC wedi nodi bod y Cyngor wedi cymryd camau i wella'r gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

Fel yn y rhan fwyaf o sefydliadau, mae rhai agweddau ar drefniadau'r Cyngor y mae angen rhoi sylw pellach iddynt. Yn benodol:

- mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau gwybodaeth yn cynnwys rhai risgiau ac mae'n bosibl y gallent gyfyngu ar allu'r Cyngor i wella;
- er gwaethaf y camau a nodwyd uchod, nododd AGGCC hefyd fod angen i'r Cyngor wella llawer o agweddau ar y gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed ymhellach.

### Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da mewn sawl maes ar gyfer gwella a nodwyd mewn llythyrau ac adroddiadau archwilio blaenorol

Rwyf wedi nodi o'r blaen nifer o argymhellion a chynigion ar gyfer gwella a hefyd wedi nodi rhai meysydd lle y byddem yn gwneud rhagor o waith. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd ar y materion hyn isod a cheir rhagor o fanylion yn Atodiad 1:

- Yn ystod 2011-12, aeth y Cyngor ati i adolygu a diwygio ei drefniadau craffu a gwneud penderfyniadau, ac mae wedi gwneud dechrau addawol o ran gweithredu'r newidiadau. Mae'n amlwg bod uwch aelodau a swyddogion yn ymrwymedig i weld y newidiadau'n cael eu cyflwyno, a byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir.
- Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael i raddau helaeth â'r cynigion ar gyfer gwella sy'n ymwneud â'i Gynllun Gwella. Mae'r Cyngor wedi dechrau datblygu cardiau sgorio cytbwys i fonitro'r modd y cyflawnir y Blaenoriaethau Gwella.
- Mae'r Cyngor wedi dechrau'r broses o ddyrannu adnoddau ar gyfer y Blaenoriaethau Gwella fel rhan o'i waith cynllunio ariannol a phennu cyllideb tymor canolig ar gyfer 2013-14.

Caiff rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau yn rhai o'r meysydd hyn ei rhoi ar wahân mewn diweddariadau interim lle y bo'n briodol.

## Erys y Cyngor mewn sefyllfa dda i reoli'r her ariannol drwy raglenni arbedion a phrosiectau 'trawsnewid'

Mae'r Cyngor yn parhau i ddiweddaru ei gynlluniau ariannol tymor canolig. Mae adolygiadau adrannol o wasanaethau wedi arwain at arbedion o £5.4 miliwn y gellir eu troi'n arian parod yn 2011-12. Mae'r Cyngor yn integreiddio'r gwaith trawsnewid yn agosach â'i fusnes o ddydd i ddydd. Mae'r Cyngor yn bwriadu ymgorffori newid drwy gyflwyno Asesiadau Strategol yn y rhaglen trawsnewid, sef adolygiadau trawsbynciol a fydd yn ystyried sut y gall y Cyngor wella'r modd y mae'n darparu gwasanaethau ymhellach. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflawni'r arbedion arfaethedig o £3.5 miliwn yn ystod 2012-13. Mae aelodau eisoes yn chwarae eu rhan yn y gwaith o bennu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu seilwaith technoleg cadarn, ac mae'n dechrau defnyddio technoleg i drawsnewid gwasanaethau a chyflawni arbedion effeithlonrwydd. Fodd bynnag, gallai wella ei drefniadau cynllunio a gwneud penderfyniadau strategol, a defnyddio gwybodaeth am berfformiad i ddangos y cyflawniadau a'r arbedion sy'n deillio o ddefnyddio technoleg. Mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar ddatblygu sianeli mynediad cwsmeriaid sy'n seiliedig ar dechnoleg, sy'n perfformio'n dda, ac mae'n dechrau manteisio ar botensial agweddau eraill ar dechnoleg i drawsnewid gwasanaethau cefn swyddfa. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor wella'r modd y mae'n mynd ati i nodi'r elw ar y buddsoddiad a wneir ganddo yn ei brosiectau technoleg.

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau gwybodaeth yn cynnwys rhai risgiau ac mae'n bosibl y gallent gyfyngu ar allu'r Cyngor i wella.

Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:

- Nid yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer llywodraethu gwybodaeth yn ddigon cadarn, nid oes ganddo strategaeth gwybodaeth gorfforaethol, ac nid yw wedi pennu perchenogaeth, atebolrwydd na chyfrifoldebau o ran gwybodaeth.
- Mae gwybodaeth dechnegol y Cyngor wedi'i diogelu'n dda. Fodd bynnag, ceir prinder gwybodaeth am asedau gwybodaeth y Cyngor, ac mae'r ffordd dameidiog y mae'n mynd ati i reoli gwybodaeth yn golygu na all ddeall yn llawn y meysydd hynny lle ceir y risg fwyaf neu'r cyfle gorau. Felly, ni all y Cyngor ganolbwyntio ei ymdrechion ar y meysydd y mae angen eu gwella fwyaf.

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wella'r gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed ond mae angen gwneud gwelliannau pellach mewn sawl agwedd ar y gwasanaethau hyn.

Cynhaliodd AGGCC arolygiad o'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer asesu a rheoli gofal plant mewn angen yn y Cyngor. Cyhoeddwyd yr adroddiad arolygu ym mis Mai 2012. Y prif ganfyddiadau oedd:

- Roedd y gwasanaeth wedi gweld cynnydd mewn galw ac ansefydlogrwydd yn y gweithlu yn ystod 2010 a 2011.
- Mae nifer y staff asiantaeth wedi lleihau a nifer y staff parhaol wedi cynyddu, ac mae arwyddion bod morâl y staff wedi gwella.
- Mae'r Cyngor wedi comisiynu ac wedi darparu'n uniongyrchol wasanaethau ataliol ychwanegol i geisio lleihau'r galw am ymyriadau gan wasanaethau cymdeithasol.
- Yn gyffredinol, nododd partneriaid statudol fel yr heddlu fod ganddynt gydberthnasau gwaith cadarnhaol â'r Cyngor. Cafwyd rhai enghreifftiau da o wasanaethau a ddarparwyd mewn partneriaeth.
- Mae perfformiad y Cyngor, fel y'i mesurir gan ddangosyddion perfformiad, yn dangos gwelliant mewn rhai meysydd allweddol gan gynnwys canran y penderfyniadau a wneir o fewn diwrnod i dderbyn atgyfeiriad.
- Mae rhai trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd ar waith, ac mae'r broses o gasglu gwybodaeth a data yn darparu sail ar gyfer deall perfformiad a dylanwadu arno.
- Mae rhai trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd ar waith, a defnyddir gwybodaeth i adolygu perfformiad gwasanaethau.

Roedd y Cyngor wedi nodi nifer o faterion yn ymwneud â pherfformiad ac effeithlonrwydd ac roedd wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r rhain. Er gwaethaf hyn, canfu'r arolygiad fod nifer o faterion nad oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael â hwy eto, gan gynnwys:

- y gyfradd uchel o ailatgyfeiriadau, ac amseroldeb ac ansawdd asesiadau cychwynnol a chraidd;
- yr angen i sicrhau bod trefniadau asesu risg a rheoli risg wedi'u dogfennu ffurfiol ar waith i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar y cam atgyfeirio a'r cam asesu;
- yr angen i sicrhau gwell ansawdd a chofnodion cyflawn mewn ffeiliau achos, a chofnodion cyson yn y ffeiliau papur ac electronig;
- yr angen am eglurder o ran dosbarthiad atgyfeiriadau i'r gwasanaeth;
- yr angen i wella trefniadau goruchwylio, ymweld â phlant yn amserol a gweithredu cynlluniau gofal yn brydlon;
- yr angen i ddatblygu ac ymgorffori'r trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd ymhellach;
- yr angen i wella rhai agweddau ar waith rhyngasiantaethol.

Mewn rhai meysydd allweddol, nid oedd y Cyngor yn gallu dangos canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc a atgyfeiriwyd.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Nid yw'r llythyr hwn yn awgrymu unrhyw gynigion pellach ar gyfer gwella. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd Tîm yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflawni fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol). Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed fwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihau adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Huw Lloyd Jones – Rheolwr

Karen Lees - Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2012 | | Cynnydd |
|---|---|---|
| C12.1 | Parhau â gwaith diweddar i ddatblygu Cynllun y Cyngor ar gyfer 2012-16 a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag uchelgais a threfniadau llywodraethu a rheoli perfformiad y Cyngor. | Mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ac sy'n gymharol hawdd i'w ddeall. Ategir y Cynllun gan fersiwn gryno fer a deniadol sydd wrthi'n cael ei hyrwyddo gan y Cyngor. Yn y Cynllun, mae'r Cyngor wedi disgrifio'r canlyniadau lefel uchel y mae am eu cyflawni drwy gyfrwng 15 o Amcanion Gwella. Mae rhychwant yr amcanion hyn yn uchelgeisiol, yn enwedig o ystyried y ffaith bod llawer ohonynt yn gofyn i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, nid ymddengys fod y rhan fwyaf o'r targedau unigol yn yr Amcanion Gwella yn ymestynnol, ac eithrio'r rhai ar gyfer addysg.<br>Yn ystod 2011-12, aeth y Cyngor ati i adolygu a diwygio ei drefniadau craffu a gwneud penderfyniadau. Derbyniwyd y newidiadau gan y Cyngor a oedd newydd gael ei ethol a chawsant eu cynnwys mewn fersiwn ddiwygiedig o'r Cyfansoddiad ym mis Mai 2012. Mae'r pwyllgorau craffu newydd wedi'u halinio â meysydd blaenoriaeth y Cyngor, a all helpu i wella ffocws ac effaith eu gwaith. Mae'r Cyngor wedi gwneud dechrau addawol o ran gweithredu'r newidiadau. Mae'n amlwg bod uwch aelodau a swyddogion yn ymrwymedig i weld y newidiadau'n cael eu cyflwyno. Bydd yn cymryd rhywfaint o amser cyn i fanteision y ffordd newydd hon o weithio effeithio ar y modd y darperir gwasanaethau a gweithrediad cyffredinol y Cyngor. Fel y cyfryw, byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa. |
| C12.2 | Gwneud newidiadau'n gyflymach wrth gyflawni'r strategaeth Adnoddau Dynol a datblygu trefniadau cynllunio'r gweithlu. | Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |

| **Cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2012** | **Cynnydd** |
|---|---|
| C12.3 Sefydlu ac ymgorffori yn nhrefniadau'r Cyngor ddulliau cadarn o wneud y canlynol:<br>• asesu a yw'r cyhoedd yn ei chael hi'n hawdd cael gafael ar wasanaethau'r Cyngor, a chymryd camau i wella hygyrchedd y gwasanaethau sydd eu hangen;<br>• ymgysylltu â'r cyhoedd, a defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu cynlluniau a gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol;<br>• darparu adborth prydlon i'r cyhoedd a, lle y bo'n briodol, grwpiau penodol o gwsmeriaid, ar ganlyniadau ymgynghoriadau cyhoeddus a'r camau a gymerwyd gan y Cyngor yn sgil yr ymgynghoriadau hynny. | Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |
| C12.4 Adolygu ei strategaeth i ddiwallu anghenion tai lleol drwy ddarparu tai fforddiadwy, gwella ansawdd ei stoc tai a rhoi cymorth i'r digartref. | Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |
| C12.5 Mynd i'r afael â gwendidau o ran pennu targedau, ansawdd data a threfniadau rheoli perfformiad, a galluogi'r Cyngor i gynnal a chyhoeddi asesiadau cadarn o'i berfformiad. | Mae'r Cyngor wedi dechrau datblygu cardiau sgorio cytbwys i fonitro'r modd y cyflawnir y Blaenoriaethau Gwella newydd. Y gwasanaeth datblygu economaidd sy'n arwain y gwaith hwn, gyda chymorth y gwasanaethau corfforaethol. Mae gan y fethodoleg newydd hon y potensial i symleiddio agweddau ar brosesau busnes gorgymhleth y Cyngor. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd pellach yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |

| **Cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn Llythyr Diweddaru Asesiad Corfforaethol 2011** | | **Cynnydd** |
|---|---|---|
| C11.1 | Cwblhau'r broses o ddatblygu mesurau canlyniadau ar gyfer ei flaenoriaethau gwella, a defnyddio adroddiadau ar berfformiad i amlygu cynnydd o ran cyflawni canlyniadau. | Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |
| C11.2 | Gwella effeithiolrwydd gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd, a datblygu dull gweithredu mwy cydlynol ym mhob rhan o'r Cyngor. | Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd pellach yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |
| **Argymhellion ar gyfer gwella a wnaed yn Llythyr Diweddaru Asesiad Corfforaethol 2011** | | **Cynnydd** |
| A1 | Dylai'r Cyngor amlinellu'r trefniadau i adolygu trefniadau craffu a gwneud penderfyniadau a symleiddio prosesau busnes sy'n cyflymu'r newid angenrheidiol i fynd i'r afael â'r materion hyn. | Gweler y sylw ar C12.1 uchod. |
| A2 | Dylai'r Cyngor nodi sut y bydd yn integreiddio'r prosesau ar gyfer datblygu amcanion gwella yn y dyfodol a dyrannu adnoddau iddynt fel rhan o'i broses cynllunio a phennu cyllideb tymor canolig. | Mae'r Cyngor wedi dechrau'r broses o ddyrannu adnoddau ar gyfer y Blaenoriaethau Gwella fel rhan o'i broses cynllunio ariannol a phennu cyllideb tymor canolig ar gyfer 2013-14. Mae uwch swyddogion ac Aelodau yn cymryd rhan yn y gwaith hwn. Mae'r cynnydd yn unol â chynllun gweithredu'r Cyngor, a byddwn yn parhau i fonitro'r gwaith hwn. |